**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**COFNODION CYFARFOD GWNEUD PENDERFYNIADAU AELOD CABINET UNIGOL A GYNHALIWYD DROS DELEGYNHADLEDD DYDD MAWRTH 21 EBRILL 2020**

**CYFRANOGWYR:** Y Cynghorydd Billy Mullin, Aelod Cabinet Rheolaeth Gorfforaethol ac Asedau, wedi'i gynghori gan y Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Rheolwr Cyllid Corfforaethol a'r Rheolwr Refeniw.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd

## 1. DATGAN CYSYLLTIAD

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet, o dan God Ymddygiad y Cynghorwyr, nad oedd ganddo gysylltiad â'r adroddiad.

## 2. CYFRADDAU BUSNES - DILEU

Eglurodd y Prif Weithredwr mai dyma'r cyfarfod Aelod Cabinet Unigol Sir y Fflint cyntaf dros y we, a gwahoddodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) i amlinellu'r weithdrefn.

Rhoddodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fanylion o'r weithdrefn a'r trefniadau ar gyfer sicrhau ymgynghoriad a thryloywder. Y rheswm dros gael penderfyniad Aelod Cabinet Unigol oedd oherwydd bod sefyllfa frys wedi codi.

Mewn amgylchiadau arferol, mae drwgddyledion unigol sy'n fwy na £25,000 angen cymeradwyaeth Cabinet o argymhellion swyddog i ddileu dyledion. Roedd hyn yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor.

Roedd dyled Ardreth Busnes o £80,128 ar gyfer Monsoon Accessorize Ltd, am eu safle yn Uned 14A Parc Siopa Brychdyn, Brychdyn, wedi'i ystyried yn anadferadwy gan fod y cwmni wedi gwneud Trefniant Gwirfoddol ar ran Cwmni (CVA) gyda chredydwyr yng Ngorffennaf 2019.

Eglurwyd yn yr adroddiad bod cwmnïau'n bwriadu defnyddio CVA fel ffordd o ailstrwythuro eu busnes, i osgoi diddymiad a dod i ben â masnachu. Roedd CVA yn gytundeb rhwymol gyfreithiol gyda chredydwyr, i ganiatáu bod cyfran o ddyledion y cwmni'n cael ei thalu yn ôl dros amser. I basio'r CVA, rhaid i 75% o gredydwyr, yn ôl gwerth ariannol, gefnogi'r cynnig.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd wedi ymgynghori'n benodol â Chadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar y mater. Roedd y Cynghorydd Clive Carver, fel Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol, wedi ymateb fel a ganlyn:

> 'Ers i Monsoon Accessorize Ltd wneud CVA gyda'i gredydwyr ac yn unol â'r cytundeb hwnnw, mae Cyngor Sir y Fflint wedi diogelu ad-daliad o £37,696 o'r £117,824 sy'n ddyledus. Nid yw'r Cyngor, yn ôl y gyfraith, yn gallu cymryd camau gorfodi o ran dyledion, i adennill y ddyled sy'n weddill o £80,128, yr unig ddewis felly yw dileu'r ddyled hon.

Hyd y gwn, oherwydd y CVA, byddai unrhyw ymgais gan y Cyngor i adennill mwy o daliadau yn ofer ac ar draul y Cyngor.

Nodaf nad yw'r ddyled hon sy'n weddill yn effeithio'n uniongyrchol ar y Cyngor, oherwydd bydd ond yn gallu gweithredu fel asiant i Lywodraeth Cymru ei gasglu, fodd bynnag, bydd hyn yn gadael Cronfa Gasglu Genedlaethol Llywodraeth Cymru yn fyr o'r swm yma.

Felly, o dan yr amgylchiadau, nid oes gennyf wrthwynebiad i'r cynnig i ddileu'r £80,128 sy'n weddill.

Dywedodd y Rheolwr Refeniw, ers drafftio'r adroddiad, o ganlyniad i gyhoeddiadau Llywodraeth Cymru ar gynlluniau rhyddhad ardrethi brys ar gyfer manwerthwyr, a'r sectorau hamdden a lletygarwch, mae Monsoon Accessorize bellach yn gymwys am Ryddhad Ardrethi 100% yn ystod 2020/21. Roedd y rhyddhad hwn yn cyfateb i £119,840. Byddai'r gost o ddyfarnu rhyddhad ardrethi ar gyfer 2020/21 yn cael ei bodloni'n llawn gan Lywodraeth Cymru.

Cytunodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol nad oedd dileu'r ddyled yn cyflwyno unrhyw risg ariannol i'r Cyngor.

Diolchodd yr Aelod Cabinet i'r swyddogion am eu cyfraniad, a dywedodd y dylid cymeradwyo i ddileu'r £80,128 ar gyfer y ddyled Ardreth Busnes yn ymwneud â Monsoon Accessorize Ltd.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo i ddileu'r £80,128 ar gyfer y ddyled Ardreth Busnes yn ymwneud â Monsoon Accessorize Ltd.

**3. HYD Y CYFARFOD**

Dechreuodd y cyfarfod am 2.01pm a daeth i ben am 2.12pm.

..................................................

**Y Cadeirydd**